

PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 6 HYDREF 2021

Yn Aelodau Annibynnol: James Downe (Cadeirydd)
bresenol: Hollie Edwards-Davies, Jason Bartlett, Chrissie Nicholls and Arthur Hallett

Y Cynghorwyr: James Downe, Hollie Edwards-Davies, Bartlett, Nicholls, Hallett, Cunnah, Sandrey, Williams a/ac Thomas

Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas

107 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

108 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau:

Cynghorydd	Eitem	Natur y Buddiant
Joel Williams	Eitem 6	Buddiant Personol - yn ymwneud ag un o'r cwynion y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad.

109 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

110 : CODAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gellid gorfodi'r Cod Egwyddorion Aelodau Etholedig ar Ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol drwy'r Cod Ymarfer Aelodau, fodd bynnag mewn perthynas â'r Cod Sefydliadau Partner, gellid dim ond gobeithio y byddent yn cadw ato.

Roedd y Cyngor wedi ymgynghori â chyrff allanol ar y Codau drafft ac wedi ymgynghori ag Aelodau Etholedig ac arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol hefyd. Mae diwygiadau wedi'u gwneud yn dilyn yr ymgynghoriadau hyn. Mae paragraff 6 yr adroddiad yn cynnwys awgrymiadau ychwanegol sydd wedi'u cyflwyno.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o ran a fyddai'r Cod yn berthnasol i negeseuon cyfryngau cymdeithasol hanesyddol. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd y cwestiwn wedi codi mewn trafodaethau. Wrth dderbyn cwynion mewn perthynas â'r Cod Ymarfer Aelodau mae cyfyngiad amser o 3 mis o'r eiliad y mae achwynwyr yn dod yn ymwybodol o'r mater. Awgrymwyd y gellid cynnwys darpariaeth debyg yn y Cod, ac y byddai'n annheg pe bai Aelodau Etholedig yn wynebu cwynion mewn perthynas â sylwadau a wnaed flynyddoedd lawer yn ôl nad oeddent yn cytuno â nhw mwyach.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd canllawiau ar gael gan ffynonellau eraill ar bostiadau hanesyddol. Dywedodd y swyddogion nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw rai.

- Cafwyd trafodaeth am yr hyn a fyddai'n cyfyngiad amser priodol ar gyfer cwynion ynglŷn â phostiadau hanesyddol; Efallai y byddai 6 mis yn rhy fyr, efallai y byddai 24 mis yn fwy priodol, ond gellid hefyd ystyried eu cyfnodau swyddi fel y cyfyngiad amser.
- Mynegodd yr aelodau'r farn y byddai hynny'n peri pryder lle roedd hanes o sylwadau hiliol, rhywiaethol neu homoffobig. Awgrymwyd hefyd y gallai gael ei ystyried yn annheg i ddal rhywun yn gyfrifol am sylwadau a wnaed cyn dechrau bywyd cyhoeddus, ac y gallai atal pobl rhag dechrau bywyd cyhoeddus.
- Mynegwyd y farn nad oedd y ffaith bod postiad gwrth-semitaidd, hiliol neu rywiaethol yn un hanesyddol yn golygu bod y person oedd yn gyfrifol wedi newid ei farn, ac y dylai'r Pwyllgor ystyried a oedd am i bobl oedd yn dal safbwyntiau o'r fath fod yn Aelodau Etholedig.
- Gofynnwyd am i arweiniad gael ei roi i Glercod Cynghorau Cymuned ar y mater hwn. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai Cod yn cael ei rannu gyda'r clerod ar ôl iddo gael ei gytuno.
- Roedd yr aelodau'n poeni am y defnydd posibl o gyfrifon hunaniaeth ffug ar anogaeth Aelod Etholedig. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'n anodd dod o hyd i dystiolaeth o gyfrifon o'r fath. Pe bai'r fath dystiolaeth yn cael ei chanfod, mae'n debygol y canfyddir bod yr Aelod oedd yn gyfrifol yn torri'r Cod Ymddygiad Aelodau.
- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o'r term 'ymdrechion rhesymol' a sut y byddai hynny'n cael ei asesu. Dywedwyd wrth yr aelodau ei fod yn derm cyfreithiol cyffredin, sy'n ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol a'r bwriad oedd pwyntio at yr hyn fyddai'n cael ei ddeall yn gyffredin fel y peth iawn i rywun ei wneud mewn unrhyw amgylchiadau penodol.
- Tynnodd yr aelodau sylw'r swyddogion at rai mân wallau teipograffigol yn y Cod drafft.
- Roedd yr aelodau o'r farn y dylai fod darpariaeth yn y Cod ar gyfer Aelodau Etholedig oedd â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi'u rheoli gan gynorthwydd, ac y dylid dweud wrth Aelodau o'r fath i sicrhau bod eu cynorthwywyr yn ymwybodol o'r Cod. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai modd dal Aelodau Etholedig yn gyfrifol am gynnwys postiadau ar gyfrif wedi'i reoli ar eu rhan pe na bai'r Aelod wedi gwneud y person oedd yn rheoli'r cyfrif yn ymwybodol o'r Cod a'i gyfrifoldebau oddi tano. Pe bai'r Aelod yn gallu dangos ei fod wedi gwneud yr aelod o staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau, byddai hynny'n cael ei ystyried. Byddai digwyddiadau ailadroddus yn debygol o arwain at sancsiynau.
- Mynegwyd y farn y dylai fod terfyn ar gyfer cwynion a sancsiynau mewn perthynas â phostiadau hanesyddol. Teimlad y Pwyllgor oedd y dylai'r terfyn fod o'r adeg y cymhwysodd y Cod Ymarfer. Efallai y byddai lliniaru ar gyfer cynghorydd newydd ei ethol nad oedd eto'n gwerthfawrogi rhwymedigaethau'r rôl yn llawn.

- Trafododd yr aelodau y diwygiadau i'r Cod ym Mharagraff 6 mewn perthynas â'r agenda Byddwch yn Garedig a thryloywder ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad i'r pwyntiau a wnaed yn yr adroddiad.
- Roedd yr aelodau o'r farn y dylid gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o reolau'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cytunodd yr aelodau mewn perthynas â'r Cod Partneriaid y dylai fod datganiad penodol yn nodi pe bai'r Cyngor yn gofyn i bartneriaid ymddwyn mewn ffordd benodol, y byddai'n cynnal yr un gwerthoedd ac egwyddorion ei hun.

PENDERFYNWYD:

- 1 Rhoi unrhyw sylwadau ar: (i) y Cod Egwyddorion Aelodau drafft ar Ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol (Atodiad A); a (ii) y Cod Ymarfer Sefydliadau Partner Drafft ar y Cyfryngau Cymdeithasol (Atodiad B);
- 2 Awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i wneud unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i'r Codau Cyfryngau Cymdeithasol drafft (Atodiad A ac Atodiad B) a'u hargymell i'w mabwysiadu gan y Cyngor llawn;
- 3 Argymhell i'r Cyngor llawn y dylid diwygio'r Cod Ymarfer Aelodau fel y dangosir yn Atodiad C, i ymgorffori'r Cod Egwyddorion Aelodau ar Ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol a gymeradwywyd; a
- 4 Argymhell i'r Cyngor llawn y dylid cyhoeddi'r Cod Ymarfer Sefydliadau Partner ar y Cyfryngau Cymdeithasol ar wefan y Cyngor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

111 : ADRODDIADAU CHWYTHU'R CHWIBAN 2020

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiadau chwythu'r chwiban a wnaed yn ystod 2020.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod angen adolygu'r polisi chwythu'r chwiban ond bod yr adolygiad wedi'i ohirio nes bod argymhellion archwiliad mewnol o'r trefniadau, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, wedi eu derbyn. Y gobaith yw gallu adrodd ar y mater hwn yng ngwanwyn 2022.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

112 : CWYNIION COD YMARFER AELODAU (CH2 2021-22)

Datganodd y Cyngorydd Williams fuddiant personol yn un o'r cwynion y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, er ei bod yn ymddangos bod cynnydd yn nifer y cwynion, fod llawer ohonynt yn ymwneud â'r un cyfarfodydd a chwynion a gwrth-gwynion am ymddygiad rhai cyngorwyr yn y cyfarfodydd hynny. Nododd yr aelodau fod tuedd i nifer y cwynion

gynyddu yn y cyfnod cyn etholiadau; mae ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatrys cwynion drwy'r broses ddatrys anffurfiol.

- Sylwodd yr aelodau fod nifer o gwynion yn parhau ac roeddent am wybod pam nad oedd yn ymddangos bod y Protocol Datrys Lleol yn llwyddiannus o ran datrys y cwynion, ac a oedd unrhyw beth yn y cwynion a oedd yn eu hatal rhag cael eu datrys. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y protocol datrys lleol yn gweithio'n weddol dda ond bod y gwaith datrys weithiau'n cymryd mwy o amser. Roedd nifer o gwynion yn ymwneud â chyfarfod ddiwedd mis Gorffennaf yn union cyn toriad mis Awst. Mewn un achos mewn perthynas â mater anodd o ran darparu gwasanaethau, roedd teimladau arbennig o gryf yn hyn o beth. Yn dilyn trafodaethau gydag arweinydd y Grŵp, penderfynwyd gadael y gŵyn am gyfnod gan y teimlad oedd y byddai'r mater gwasanaeth yn cael ei ddatrys, ac wedi'i ddatrys, byddai datrys y gŵyn yn haws pe bai cyfnod o dawelwch wedi rhagflaenu.

Dechreuodd y Pwyllgor sesiwn gaeedig i drafod gwybodaeth wedi'i heithrio mewn perthynas â chwyn benodol lle'r oedd achos cyfreithiol wedi'i ddechrau.

PENDERFYNWYD:

Nodi cynnwys yr adroddiad.

113 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd roedd y Pwyllgor wedi'i wneud mewn nifer o feysydd.

- Awgrymodd yr aelodau ychwanegiad yn egluro pam bod y Pwyllgor yn arsylwi ac yn monitro cyfarfodydd, a'i awgrymiadau am welliannau wrth geisio cysondeb.
- Roedd yr aelodau am wybod a fyddai cyfnod yr adroddiad blynyddol yn para tan fis Mai neu ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth newydd. Dywedwyd wrth yr aelodau y teimlwyd, gan fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud a bod nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal, y byddai'n well cyhoeddi adroddiad ar yr adeg hon cyn newid y Cadeirydd. Byddai'r Cadeirydd newydd wedyn yn gallu adrodd ar y gwaith yr oedd wedi arwain y Pwyllgor arno. Byddai'n fuddiol hefyd atgoffa Aelodau Etholedig am bresenoldeb y Pwyllgor yn y cyfnod cyn yr etholiad Llywodraeth Leol.
- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad am amseru'r adroddiad blynyddol. Dywedwyd wrth yr aelodau fod gofyn i'r Pwyllgor adrodd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol dan y ddeddfwriaeth newydd. Daw'r ddeddfwriaeth i rym mewn perthynas â'r flwyddyn 2022/2023.

PENDERFYNWYD:

- 1 Rhoi sylwadau ar gynnwys Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Pwyllgor;
- 2 Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i ddrafftio a chwblhau'r Adroddiad Blynyddol, gan ystyried y sylwadau a gafwyd gan Aelodau'r Pwyllgor; a

- 3 Gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2021.

114 : ETHOL CADEIRYDD

Gwahoddwyd yr aelodau i enwebu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd, ac atgoffwyd yr aelodau bod yn rhaid i'r Cadeirydd fod yn Aelod Annibynnol.

Enwebwyd ac etholwyd y Dirprwy Gadeirydd Hollie Edwards-Davies fel y Cadeirydd newydd.

Enwebwyd a phenodwyd Chrissie Nicholls fel y Dirprwy Gadeirydd.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Aelodau Annibynnol newydd yn cael eu recriwtio.

Diolchodd y Pwyllgor a'r Swyddogion i'r Cadeirydd oedd yn gadael am ei waith.

115 : BLAENRAGLEN WAITH 2021-22

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r cyfarfod gydag Arweinwyr Grwpiau a Chwipiaid yn parhau i ddigwydd yn flynyddol a dywedwyd wrthynt mai'r Pwyllgor sy'n penderfynu ar ei amllder, mewn ymgynghoriad â'r arweinwyr a'r chwipiaid. Ar gyfer 2022 byddai'n rhaid i'r amseru ystyried yr etholiad Llywodraeth Leol a'r posibilrwydd o Arweinwyr Grwpiau a Chwipiaid yn cael eu disodli, ond yn dilyn hynny byddai modd cynnal y cyfarfod bob 6 mis pe bai'r Pwyllgor yn dymuno gwneud hynny.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r Flaenraglen Waith.

116 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau bryd.

117 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Chwefror 2022 am 4.30pm trwy MS Teams.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.12 pm